Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**

# Adroddiad Arolygu

# Cartref Bryn yr Eglwys

**Pentrefoelas, Betws-y-coed, LL24 0HY**

**01690770384**

**Dyddiad yr ymweliad arolygu / Dyddiadau'r ymweliadau arolygu:**

16/05/2025

## Gwybodaeth am y Gwasanaeth:

| | |
|---|---|
| Gweithredir gan: | NANT-Y-FOEL CYFYNGEDIG |
| Math o Ofal: | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Gofal â Nyrsio i Oedolion |
| Darpariaeth ar gyfer: | Cartref gofal i oedolion - â nyrsio, Cartref gofal i oedolion - â gofal personol |
| Lleoedd cofrestredig: | 30 |
| Prif iaith/ieithoedd: | Cymraeg a Saesneg |
| Hyrwyddo'r Gymraeg a diwylliant Cymru: | Mae darparwr y gwasanaeth yn rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol y bobl. |

## Graddau:

| | |
|---|---|
| **Llesiant** | **Rhagorol** |
| **Gofal a Chymorth** | **Da** |
| **Yr Amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Da** |

## Crynodeb:

Hen reithordy yw Cartref Bryn yr Eglwys a adeiladwyd yn y 1850au. Mae'n adeilad llawn cymeriad sydd wedi'i leoli ar ei dir ei hun ym mhentref Pentrefoelas. Mae'r cartref wedi cael estyniad yn ddiweddar ac mae bellach wedi'i gofrestru ag Arolygiaeth Gofal Cymru i ddarparu gofal nyrsio i hyd at 30 o oedolion.

Mae'r bobl yn profi llesiant rhagorol oherwydd cânt eu cefnogi i nodi eu canlyniadau llesiant a chânt eu hannog i ddefnyddio eu cryfderau ac i adeiladu arnynt. Maent yn cymryd rhan yn y penderfyniadau sy'n effeithio arnynt yn eu hiaith eu hunain, gan sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed. Caiff hyn ei gyflawni am fod y gwasanaeth yn hybu'r Gymraeg a diwylliant Cymru yn rhagorol.

Mae'r gofal a'r cymorth yn dda am fod y bobl yn cael eu cefnogi gan dîm o staff gofal cyfeillgar a

phroffesiynol sy'n darparu gofal sydd o safon dda yn gyson. Mae'r cynlluniau personol yn adlewyrchu anghenion y bobl yn gywir ac maent yn cael eu hadolygu'n barhaus. Mae'r bobl yn cael cysur mawr o'u rhyngweithio cynnes â'r staff. Maent yn mwynhau cwmni pobl eraill a rhaglen weithgareddau lawn ac amrywiol y cartref.

Mae'r bobl yn byw mewn amgylchedd da, am fod y cartref yn lân, mewn cyflwr da ac yn gartrefol. Gall y bobl symud o gwmpas yn ddiogel ac mae'r cyfarpar arbenigol sydd eu hangen arnynt ar gael iddynt. Caiff safonau'r amgylchedd eu monitro yn ystod prosesau sicrhau ansawdd.

Mae arweinyddiaeth a rheolaeth y gwasanaeth yn dda am fod y tîm rheoli yn cynnal lefelau priodol o staff i sicrhau bod y cartref yn cael ei redeg yn ddidrafferth. Ceir ymdeimlad cryf o waith tîm ymhlith y staff ac mae morâl yn uchel. Caiff y staff eu recriwtio, eu hyfforddi a'u cefnogi'n briodol. Mae'r unigolyn cyfrifol, sef rheolwr cofrestredig y cartref, yn gwbl ymwybodol o brofiadau'r bobl a sut y gellir datblygu'r gwasanaeth ymhellach.

# Canfyddiadau:

## Llesiant — Rhagorol

Mae'r bobl yn byw bywyd iach a diogel ac mae ganddynt ddewis a rheolaeth dros eu bywydau. Mae ymrwymiad cryf a brwdfrydedd i hyrwyddo'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg. Mae aelod o'r staff wedi'i ddynodi'n 'Hyrwyddwr y Gymraeg' ac mae'r tîm rheoli a sawl aelod o'r staff yn siarad Cymraeg yn rhugl. Y llynedd, enillodd un aelod o'r staff wobr 'Gofalu trwy'r Gymraeg' a gyflwynwyd gan Gofal Cymdeithasol Cymru. Mae gweithgareddau ar gael yn Gymraeg ac mae cylchlythyr dwyieithog misol ac adran olygyddol fisol ym mhapur newydd Cymraeg y gymuned, 'Yr Odyn'. Mae'r tîm gofal yn cynnig gwasanaeth dwyieithog, a gall y bobl fynd i wasanaeth crefyddol dwyieithog bob bore Sul. Mae nifer o Feiblau dwyieithog ar gael mewn print bras i'r rhai sy'n dymuno darllen y Beibl, ac mae mwy yn cael eu harchebu.

Mae pwyslais mawr ar sicrhau bod y bobl yn byw bywyd cyfoethog a llawn boddhad. Mae'r bobl wedi cael budd sylweddol o gymorth a gofal y staff. Mae gweithgareddau ystyrlon sy'n hybu iechyd a llesiant y bobl, fel ymarfer corff o'r gadair, cwisiau a gemau cof, ar gael i'r bobl. Yn ddiweddar, gwnaeth y bobl ddathlu'r Pasg a Diwrnod VE. Mae'r tîm rheoli wedi cael cymorth gan eiriolwr i helpu un person i ddilyn hobi gydol oes. Gwelsom lawer o bobl yn mwynhau ymlacio yn eu hystafelloedd, yn eistedd yn y lolfa yn gwylio'r teledu neu'n edrych allan i'r ardd wrth wrando ar gerddoriaeth yn y lolfeydd. Roedd person arall yn torheulo yn yr ardd. Gwelsom sawl achos lle'r oedd y staff yn bwrpasol yn eu gwaith, heb frysio na rhuthro ac yn cydweithio'n dda fel tîm. Dywedodd un perthynas wrthym na allai ddiolch digon i'r tîm o staff am fod ei anwylyd wedi mynd o nerth i nerth ers symud i mewn.

Mae'r gwasanaeth yn diogelu'r bobl rhag camdriniaeth ac esgeulustod. Mae asesiadau risg a chynlluniau personol yn nodi lle bydd angen cyfarpar arbenigol ar bobl i'w helpu i'w cadw'n ddiogel, a gwelsom hyn ar waith. Mae lefelau rhagorol o staffio yn sicrhau bod y bobl yn cael gofal amserol. Mae'r cofnodion yn dangos bod y staff gofal yn cynnal gwiriadau diogelwch yn rheolaidd yn unol â chynlluniau personol y bobl. Caiff digwyddiadau eu dogfennu a'u hadolygu'n glir fel rhan o broses archwilio'r cartref. Caiff y staff eu recriwtio'n briodol ac maent yn cael sesiynau sefydlu a hyfforddiant sy'n eu cefnogi yn eu rolau. Mae'r cofnodion yn dangos bod y staff gofal yn cwblhau hyfforddiant gloywi mewn perthynas â diogelu.

Mae'r cartref a'i gyfleusterau mewn cyflwr da ac maent yn addas i helpu'r bobl i gyflawni eu nodau personol. Mae ardaloedd cymunedol ar gael i'r bobl. Gwneir buddsoddiad parhaus yn y gwasanaeth. Mae eitemau newydd o ddodrefn a chyfarpar wedi cael eu prynu ac mae gwaith ailaddurno yn mynd rhagddo. Mae'r amgylchedd yn lân, yn gartrefol ac mewn cyflwr da.

## Gofal a Chymorth — Da

Mae'r staff gofal yn gyfarwydd â'r cynlluniau personol ac yn deall sut mae'r bobl eisiau iddynt ofalu amdanynt. Mae’r bobl neu eu cynrychiolwyr yn cael eu cynnwys yn y broses o ddatblygu eu cynlluniau personol, sy'n cael eu hadolygu a'u diweddaru'n rheolaidd. Mae'r cynlluniau yn cynnwys manylion sy'n ymwneud â dewisiadau gofal y bobl, eu barn a'u nodau. Mae'r tîm rheoli yn archwilio cofnodion gofal yn rheolaidd ac mae'r cofnodion gofal dyddiol yn darparu gwybodaeth ystyrlon am iechyd a hwyliau'r bobl a'r gofal y maent wedi'i gael. Mae'r gwasanaeth yn dilyn Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid er mwyn sicrhau bod unrhyw gyfyngiadau a wynebir gan y bobl yn gyfreithlon.

Mae'r bobl yn cael cymorth i ddefnyddio gwasanaethau gofal iechyd a gwasanaethau eraill. Mae'r cofnodion yn dangos bod y gwasanaeth yn cysylltu â gweithwyr iechyd proffesiynol yn amserol i gael cyngor pan fo angen. Mae nyrsys cymwysedig bob amser ar y safle, ac mae eu hyfforddiant yn gyfredol. Gwelsom fod meddyginiaeth y bobl yn cael ei hadolygu a bod iechyd y bobl yn cael ei fonitro'n gyson. Caiff deiet, cymeriant hylif a gofal briwiau pwyso eu monitro'n agos ac mae systemau cadarn yn nodi unrhyw bryderon yn gyflym. Mae tri hyrwyddwr gofal iechyd y geg i sicrhau bod y safon uchaf o ran iechyd y geg yn cael ei chynnal.

Mae'r bobl yn fodlon iawn ag ansawdd y bwyd a diod a gânt. Mae'r staff gofal yn helpu'r bobl i fwyta mewn modd sensitif ac urddasol ac maent yn eu hannog yn gyson i fwyta ac yfed yn annibynnol. Caiff y prydau eu cyflwyno'n dda a'u gweini ar adegau gwahanol fel y gall y bobl eu mwynhau ar eu gorau. Mae'r bobl yn cael prydau bwyd cartref a chaiff dewisiadau'r bobl eu bodloni am fod amrywiaeth o opsiynau i'r bobl ddewis ohonynt. Mae'r staff gofal yn monitro pwysau'r bobl yn agos ac yn sicrhau eu bod yn cael yr atchwanegiadau maeth sydd wedi cael eu rhagnodi iddynt.

Mae gan y cartref systemau meddyginiaeth addas ar waith. Mae'r bobl yn cael y feddyginiaeth sydd wedi cael ei rhagnodi iddynt yn gyson ac mae archwiliadau rheolaidd yn cael eu cynnal. Mae'r staff wedi cael hyfforddiant ar feddyginiaeth, a chaiff eu cymwyseddau eu gwirio. Caiff tymereddau storio meddyginiaeth a chofnodion eu gwirio'n ddyddiol.

Caiff yr amgylchedd ei lanhau i safon uchel iawn sy'n helpu i leihau'r risg o groes-heintio. Cafodd y cartref sgôr hylendid bwyd o 4 (da) yn dilyn arolygiad gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd ym mis Hydref 2024. Gwelsom fod yr ystafelloedd preifat a chymunedol yn lân a thaclus. Mae cyfarpar diogelu personol a chyfleusterau golchi dwylo ar gael yn hwylus i'r staff. Mae pob aelod o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant ar reoli heintiau. Mae system lif yn yr ystafell golchi dillad yn helpu i wahanu eitemau glân a budr.

## Yr Amgylchedd **Da**

Mae'r cartref yn ddiogel ac mewn cyflwr priodol. Ni all ymwelwyr fynd i mewn i'r adeilad heb gymeradwyaeth y staff a chaiff cofnod ei gadw wrth iddynt fynd i mewn a gadael. Mae'r holl staff wedi cwblhau hyfforddiant ar iechyd a diogelwch. Mae gweithwyr cynnal a chadw yn cynnal gwiriadau iechyd a diogelwch rheolaidd ar y cyd â gwaith atgyweirio ac ailaddurno cyffredinol. Mae'r cartref a'r cyfleusterau mewn cyflwr da. Mae'r cyfleustodau a'r cyfarpar wedi cael eu harchwilio a'u gwasanaethu o fewn yr amserlenni a argymhellir ac maent yn ddiogel i'w defnyddio. Mae'r cartref yn defnyddio contractwyr allanol i wneud gwaith arbenigol. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn cyfarfod â'r staff cynnal a chadw yn rheolaidd ac yn cwblhau archwiliadau iechyd a diogelwch. Mae mesurau iechyd a diogelwch yn sicrhau bod yr adeilad mor ddiogel ag y gall fod a chaiff gwiriadau rheolaidd eu cynnal mewn perthynas â'r gosodiadau trydanol, diogelwch nwy, hylendid dŵr, cyfarpar trydanol, diogelwch tân a goleuadau argyfwng, y lifft a chyfarpar arall. Mae'r cofnodion a'r tystysgrifau yn dangos bod y rhain yn gyfredol.

Mae'r cartref wedi ei gyflwyno mewn ffordd ystyriol ac mae wedi cael estyniad yn ddiweddar. Yn yr estyniad newydd caiff y ffenestri eu rheoli'n electronig. Mae dwy lolfa gyfforddus sy'n cynnwys tân trydan a ffenestri mawr sy'n edrych allan dros ardal wledig heddychlon a bywyd gwyllt y gall y bobl allu eu hedmygu. Mae dodrefn newydd wedi cael eu prynu ar gyfer llawer o ystafelloedd gwely. Mae'r décor yn gartrefol ac mae'r ystafelloedd cymunedol yn olau ac yn fawr. Mae digon o ardaloedd cymunedol i'r bobl eu mwynhau a chafodd pen-blwydd arbennig ei ddathlu yn yr ystafell fwyta fawr yn ddiweddar. Mae lluniau a gwaith celf yn cael eu harddangos ar y cyd â gwybodaeth am weithgareddau. Caiff yr ystafelloedd gwely eu gosod allan yn unol ag anghenion a diddordebau'r bobl ac mae llawer ohonynt yn cynnwys dodrefn, deunyddiau meddal ac eiddo personol y bobl. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn fodlon ar eu hystafelloedd. Roedd un person yn eiddgar i ddangos ei ystafell newydd i ni a dywedodd na allai freuddwydio am ystafell wely well. Mae ganddynt bopeth sydd ei angen arnynt. Mae ardal awyr agored i'r bobl ei mwynhau â digon o ardaloedd eistedd.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

**Da**

Mae gan y gwasanaeth dîm o reolwyr brwdfrydig ac ymrwymedig. Dywed y staff fod y rheolwyr yn gefnogol ac yn hawdd iawn mynd atynt. Yr Unigolyn Cyfrifol yw'r rheolwr hefyd ac mae i'w weld yn y cartref y rhan fwyaf o ddiwrnodau. Mae'n monitro safonau'r gwasanaeth yn gyson ac yn rheoli'r cartref gyda chymorth dirprwy reolwr ac uwch-dîm. Y dirprwy reolwr yw'r arweinydd clinigol sy'n helpu i gwblhau llawer o archwiliadau mewnol. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn cyflwyno canfyddiadau archwiliadau mewn adroddiadau ansawdd bob tri mis, sy'n adlewyrchu barn y bobl sy'n byw ac yn gweithio yn y cartref. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn angerddol am hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru yn y cartref. Caiff cyfarfodydd staff eu cynnal yn rheolaidd sy'n dangos bod pynciau penodol yn cael eu trafod â'r tîm o staff gan gynnwys unrhyw ddigwyddiadau yn y cartref ac unrhyw adborth gan deuluoedd neu weithwyr proffesiynol. Mae'r tîm rheoli hefyd yn cydnabod ymroddiad y staff i ofalu am y bobl yn y cartref a'u gwaith caled. Mae adolygiadau o ansawdd y gofal a gynhelir bob chwe mis yn adlewyrchu adborth gan y bobl yn y cartref, gweithwyr proffesiynol ac ymwelwyr ac maent yn canolbwyntio ar gryfderau a nodi gwelliannau. Mae llawer o sylwadau cadarnhaol gan weithwyr proffesiynol ac ymwelwyr.

Caiff y bobl ofal gan weithlu diogel sy'n meddu ar sgiliau priodol. Mae'r staff yn cael y gwiriadau recriwtio gofynnol cyn cael eu cyflogi, a chânt eu fetio gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd bob tair blynedd. Mae'r tîm rheoli yn cefnogi'r staff i gwblhau proses sefydlu briodol a chofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru. Mae'r staff yn cwblhau cyrsiau hyfforddi gorfodol ac arbenigol, a chaiff y rhan fwyaf o'r rhain eu cynnal wyneb yn wyneb. Mae'r staff yn gwybod sut i roi gwybod am bryderon am les y bobl ac maent yn gyfarwydd â'r polisïau a'r gweithdrefnau sy'n llywio eu harferion. Mae'r rheolwr a'r dirprwy wedi mynychu hyfforddiant gofal diwedd oes ar y Chwe Cham ac maent yn teimlo'n angerddol am ddarparu gofal o ansawdd da. Cynhelir sesiynau goruchwylio staff a chaiff y staff gyfleoedd i drafod unrhyw faterion ac unrhyw ddyheadau o ran eu datblygiad.

# Meysydd i'w gwella a nodwyd

Lle byddwn yn nodi **Meysydd i'w Gwella** ond na fyddwn wedi canfod bod y bobl yn wynebu risg uniongyrchol neu sylweddol, byddwn yn eu trafod â'r darparwr. Rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu a byddwn yn ystyried y mater eto yn ystod yr arolygiad nesaf.

Lle byddwn yn canfod bod yn **rhaid gwella'r** canlyniadau i'r bobl **yn sylweddol** a/neu fod risg i lesiant y bobl, byddwn yn nodi meysydd **Gweithredu â Blaenoriaeth**. Yn yr amgylchiadau hyn, byddwn yn cyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth i'r Darparwr, a rhaid iddo gymryd camau ar unwaith i wneud gwelliannau. Byddwn yn cynnal arolygiad arall ymhen chwe mis er mwyn cadarnhau bod gwelliannau wedi'u gwneud a bod y canlyniadau i'r bobl wedi gwella.

**Ni nododd AGC unrhyw feysydd i'w gwella yn dilyn yr arolygiad hwn.**

**Ni chyhoeddodd AGC unrhyw Hysbysiadau Gweithredu â Blaenoriaeth yn dilyn yr arolygiad hwn.**

This report is also available in English

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2025.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*